Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | Mehefin 12, 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Emma Horan, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad |
| **Teitl** | Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor 2023 - 2024 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2023 i 2024, gan ddarparu ein dadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau gyda'n hamcanion perfformiad allweddol (h.y. themâu ein Cynllun Corfforaethol).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae adrodd yn rheolaidd yn rhan o'n gwerthoedd a'n hegwyddorion ynghylch bod yn glir ac yn dryloyw am ein perfformiad a bod yn atebol. Mae'n un o ofynion monitro hanfodol methodoleg rheoli perfformiad y Cyngor ac yn ofynnol er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Cymru 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.2 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae ein Crynodeb Gweithredol, a gyflwynir ynghyd â'r adroddiad hwn, yn rhoi datganiad gwerthusol o'n cynnydd. Ceisir adborth ar gynnwys yr adroddiadau drafft, ynghlwm yn atodiad I a II, cyn i ni fynd â'r adroddiadau trwy'r pwyllgorau ac rydym yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar y dogfennau terfynol fis Gorffennaf. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno'r Sgôp drafft ar gyfer Asesiad Perfformiad y Panel ar gyfer mewnbwn pellach.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried yr adroddiadau ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â pherfformiad a amlygir o fewn yr adroddiadau.

3.2 Bod y Pwyllgor yn myfyrio ar negeseuon allweddol sy'n codi o'r Hunanasesiad ac yn rhoi adborth ar y sgôp drafft ar gyfer Asesiad Perfformiad y Panel, sydd yn atodiad 4.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ynghyd â'r adroddiad hwn, cyflwynwn dair dogfen.  Yn Atodiad I cyflwynir ein Crynodeb Gweithredol, sy'n amlygu uchafbwyntiau ein perfformiad wrth gyflawni ein hamcanion (hynny yw, themâu ein Cynllun Corfforaethol, sef ein Hamcanion Lles a Chydraddoldeb) a'r saith o feysydd llywodraethu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. I bob pwrpas, mae'r paragraffau byr yn y ddogfen hon yn ddatganiad o'n perfformiad wrth gyflawni ein swyddogaethau, sydd hefyd yn rhoi rhagolwg o'r heriau sy'n ein hwynebu a meysydd i'w gwella.

4.2 Atodiad II yw ein Hadroddiad Diweddaru Perfformiad chwarterol arferol, sy'n rhan o'n proses ar gyfer hunanasesu parhaus ac yn cynnwys yr holl dystiolaeth (mewnol ac allanol) a dadansoddiadau y gellir eu defnyddio wrth ateb y cwestiynau 'Pa mor dda ydyn ni'n ei wneud?', 'Sut ydyn ni'n gwybod?', a 'Beth a sut allwn ni ei wneud yn well'? Mae'r Adroddiad Diweddaru Perfformiad hwn yn rhoi'r darlun diweddaraf o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024, a dyma'r adroddiad perfformiad cyntaf ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig. Mae'r Adroddiad Diweddaru Perfformiad hwn ar gyfer mis Hydref i fis Mawrth, o'i gyfuno â'r Crynodeb Gweithredol a'r ddau Adroddiad Diweddaru blaenorol, yn ffurfio ein Hunanasesiad ar gyfer 2023 i 2024. Wrth ddarllen yr holl Adroddiadau Diweddaru Perfformiad gyda'i gilydd bydd modd gweld y gwelliannau rydym ni wedi'u nodi gydol y flwyddyn i gynnal perfformiad.

4.3 Mae'r adroddiadau hyn yn adlewyrchu helyntion y misoedd diwethaf wrth i'r Cyngor weithio i sicrhau ei fod yn cyflawni cyllideb gytbwys. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod ein llywodraethu yn gweithio'n effeithiol a bod ein diwylliant, ein gwerthoedd a'n hegwyddorion yn ein gosod mewn sefyllfa dda. Mae rhai cyflawniadau da i fod yn falch ohonynt gan gynnwys: atal digartrefedd (er bod rhai mesurau yn parhau i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'); economi leol a manteision cymunedol a ddarperir drwy gaffael; y twf mewn darparwyr micro, gan

ganiatáu mwy o fynediad at wasanaethau i drigolion; cymorth blynyddoedd cynnar; buddsoddi mewn gwefru cerbydau trydan, cynlluniau amddiffyn yr arfordir a chynlluniau effeithlonrwydd ynni yn ein hadeiladau; llywodraethu cryf a dealltwriaeth gynyddol o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o'r "teulu Sir Ddinbych" a'n dull "un cyngor", a hyder cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg. A meysydd lle mae angen gwella cynnydd, gan gynnwys: mae adborth budd-ddeiliaid wedi gwaethygu eleni (am resymau rydym yn eu deall); nifer uchel o bobl ar y rhestr aros am dai; ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi wedi'u gwneud yn ddiogel o fewn yr amser targed; mae tlodi a bywiogrwydd ein heconomi leol yn parhau i fod yn bryder (gan gynnwys y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 o ysgolion y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant); ac amrywiant cyllideb corfforaethol a gwasanaethau.

4.4 Mae Atodiadau I a II yn ddogfennau byw. Byddwn yn rhoi diweddariad ar lafar ar unrhyw ddiwygiadau. Ar hyn o bryd mae pum gweithgaredd gwella wedi'u nodi yn ystod y cyfnod hwn:

- Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y rhesymau dros y perfformiad gwael mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen). Mae hwn yn weithred barhaus.
- Dylai'r Strategaeth Economaidd newydd ystyried arlwy ddiwylliannol y sir a sut mae'n cyfrannu at ganlyniadau economaidd a lles ehangach.
- Ystyried y rhwystrau i gyflawni'r Cynllun Cludiant Cynaliadwy ac a ddylid oedi'r prosiect neu ddyrannu mwy o adnoddau i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau.
- Ystyried ymatebion yr Arolwg Budd-ddeiliaid 2023 i 2024.
- Ystyried canfyddiadau ac argymhellion Gwiriwr Taith Ffyrdd Newydd o Weithio Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

4.5 Wedi'i gynnwys yn atodiad IV mae'r cwmpas arfaethedig ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel (APP) sydd ar y gweill, y mae'n ofynnol i'r cyngor ei gynnal unwaith o fewn tymor arferol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r ddogfen yn egluro cefndir a phwrpas yr asesiad ac yn amlinellu argymhellion y Gweithgor APP ar gyfer ffocws yr asesiad.

4.6 Roedd y Gweithgor yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Lywodraethu a Busnes; Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol – Pobl; Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau; y Pennaeth Cyllid (A151); y Prif Archwilydd Mewnol; yr Arweinydd; Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Aelod Arweiniol dros y Strategaeth Gorfforaethol, Polisi a Chydraddoldeb; a swyddogion perfformiad allweddol o'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Cefnogwyd y grŵp hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4.7 Penderfynwyd ar dri maes ffocws, gan gwmpasu: **1. Arweinyddiaeth, 2. Cynigion Cyllideb / Trawsnewid, a 3 . Gweithio mewn Partneriaeth.** Mae awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol sy'n berthnasol i'r meysydd hyn wedi'u codi o linell gwestiynu a awgrymir gan CLILC, wedi'u cymryd o'u methodoleg, gan ystyried, ac osgoi dyblygu gydag archwiliadau diweddar eraill neu feysydd gwaith parhaus.

4.8 Mae'r cwmpas yn cael ei rannu ochr yn ochr â Hunanasesiad o Berfformiad y cyngor i gael mewnbwn pellach gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig. Rhagwelir y bydd y Cabinet yn penodi panelwyr ym mis Gorffennaf, gyda gwaith maes yn digwydd ym mis Medi.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r Hunanasesiad o Berfformiad yn cynnwys arfarniad o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni themâu ei Gynllun Corfforaethol. Bydd yr Asesiad Perfformiad y Panel hefyd yn ystyried pa mor dda y gall y cyngor gyflawni yn erbyn ei flaenoriaethau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol ei hun, sydd wedi'i ddiweddaru fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol, a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ym mis Chwefror.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Datblygwyd yr adroddiadau gan y Tîm Cynllunio Strategol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae adborth eisoes wedi’i geisio ar yr adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet yn Sesiwn Friffio’r Cabinet a’r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Cynhelir ymgynghoriad pellach gyda'r Cabinet; cyn ei gyflwyno i’r Cyngor Sir i’w gymeradwyo yng Ngorffennaf 2024.

8.2. Ystyriwyd y Sgôp ar gyfer Asesiad Perfformiad y Panel i ddechrau gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ystod eu cyfarfod Adolygu Cyfran y Cynllun Corfforaethol ym mis Mawrth, ac yn dilyn hynny cynullwyd Gweithgor o swyddogion allweddol ac aelodau Cabinet ddwywaith i ddatblygu'r drafft. Gofynnir yn awr am fewnbwn pellach i hyn ochr yn ochr â'r Hunanasesiad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gyda'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai methu â chyhoeddi ein Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da’r Cyngor. Mae risg y bydd perfformiad gwael yn cael ei adrodd allan o’i gyd-destun, gan effeithio ar ein henw da. Ar sail hynny, rydym eisoes wedi rhannu'r adroddiad drafft gyda’r Tîm Cyfathrebu. Mae risg na fydd allbwn Asesiad Perfformiad y Panel yn dod ag unrhyw werth i'r cyngor. Mae'n bwysig felly bod y cyngor yn ymgysylltu â'r ymarfer cwmpasu i roi cyfeiriad clir i'r panel.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Rhan 6, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (pennod 1, adran 89).

11.2. Rhan 2, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16); Rheoliadau’r Ddeddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy’n ddarostyngedig i Ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021.

11.4. Adran 21, Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu mewn perthynas â rheoli perfformiad.